Rheoliadau

Rheoli Llygredd Amaethyddol

# Gweithlyfr Fferm – Canllawiau Rheoliadau Adnoddau Dŵr 2021

Defnyddiwch y canllawiau canlynol i’ch cefnogi i gwblhau'r Gweithlyfr Fferm os gwelwch yn dda.

**Tab ‘Cynnwys’:**

- Cofiwch gwblhau Dyddiad Cofnodi bob tro yr ydych yn cwblhau/diweddaru'r Gweithlyfr Fferm

**1.1 Terfyn cyfanswm nitrogen (N) y daliad**: Mae’r tab yma ar gyfer cyfrifo capasiti nitrogen (o dail da byw) eich daliad. Ychwanegwch bob tir sydd yn berchen i chi, tir rhent a hawliau tir comin sydd ar gael i’ch busnes os gwelwch yn dda. Bydd y wybodaeth sydd yn cael ei fewnbynnu yma yn bwydo yn awtomatig i dabiau 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4, sef tabiau cynllunio defnydd nitrogen. Cofiwch ychwanegu pob parsel o dir sydd yn derbyn tail neu wrtaith fel parsel unigol, neu unrhyw barsel tir sydd yn cael ei reoli yn yr un modd e.e. tir silwair sydd yn derbyn yr un maint o wrtaith a/neu dail.

***D.S. Os ydych yn bwriadu cynnwys tir rhent, yna holwch y perchennog i sicrhau nad ydynt am ei gynnwys yn eu cyfrifiadau nhw os gwelwch yn dda.***

Gellir cynnwys **tir comin** fel un cofnod. Gellir canfod maint eich hawliau tir comin yn eich llythyr Taliad Sylfaenol ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Defnyddiwch y tabl enghreifftiol isod i gwblhau tab 1.1.

| Enw neu rif cae | Arwynebedd (ha) dan borfa neu gnwd gan gynnwys tir comin |
|---|---:|
| Cae 1 – Pori trwy’r flwyddyn | 4 |
| Cae 2 - Un toriad a’i bori | 5.5 |
| Cae 3 – Dau doriad a’i bori | 2.3 |
| Cae 4 | 3.3 |
| Cae 5 | 6.1 |
| Tir silwair – Dau gae – Tri thoriad a’u pori | 15.4 |
| Tir Comin (gellir canfod manylion ar eich llythyr Taliad Sylfaenol ar RPW Ar-lein) | 15.6 |
| **Tir rhent dros yr haf:** 10ha am 6 mis (Rhannu cyfanswm y tir rhent gyda 12 mis | 10 / 12* 6 = 5 |

| | |
|---|---|
| yna lluosi gyda hyd y cyfnod rhent mewn misoedd (e.e. 6 mis))<br><br>**D.S. Gwiriwch nad ydi perchennog y tir rhent yn cynnwys y tir yma yn eu cyfrifiadau nhw os gwelwch yn dda. Os ydynt, yna bydd rhaid lleihau nifer y dyddiau ar gyfer y da byw hynny yn nhab 1.2.** | |
| **Tir rhent dros y gaeaf:** 20 ha am 6 mis (Fel yr uchod) | 20 / 12 * 6 = 10 |

**1.2 Cyfanswm N wedi'i gynhyrchu:** Bydd y tab yma yn cyfrifo cyfanswm y nitrogen gaiff ei gynhyrchu gan dda byw ar eich fferm o fewn blwyddyn galendr (Ionawr - Rhagfyr). Cwblhewch y tab yma ar gyfer yr holl dda byw ar eich fferm os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio'r enghreifftiau isod.

**Enghraifft 1**
**Fferm Eidion/Defaid/Dofednod:**

**Buches eidion yn lloea yn Ebrill:**
- **40 o fuchod sugno – 365 diwrnod**
- **40 o loeau (0 i 3 mis (Ebrill - Mehefin)) 90 diwrnod**
- **40 o loeau (3 - 13 mis) – 40 diwrnod ar fferm, ar gyfartaledd – 275 diwrnod**
- **Lloeau yn cael eu gwerthu fel stôrs felly dim lloeau hŷn na 13 mis**
- **1 tarw - 365 diwrnod**

**Diadell ddefaid sy'n ŵyna ym mis Mawrth.** (600 o ŵyn yn cael eu geni – cyfrifir ŵyn hyd at 6 mis oed i mewn yn ffigyrau'r defaid)
- **200 o famogiaid llai na 60kg – 365 diwrnod**
- **200 o famogiaid mwy na 60kg – 365 diwrnod**
- **270 o ŵyn (6 - 9 mis) – 90 diwrnod** (330 o ŵyn yn cael eu gwerthu cyn 6 mis oed)
- **120 o ŵyn benyw a gedwir i fagu (o 9 mis - ŵyna cyntaf) - 244 diwrnod** (ar dir pori gaeaf am 4 mis felly lleihau'r dyddiau o 4 mis). D.S. Gwiriwch gyda'r perchennog os ydyn nhw yn cyfri'r tir rhent yma yn eu cyfrifiadau nhw.
- **8 hwrdd - dros 60 kg – 365 diwrnod**

| Math o dda byw | | Nifer y stoc | Dyddiau ar y fferm | nitrogen a gynhyrchir gan bob uned o stoc (kg/blwyddyn) | Cyfanswm y Nitrogen a gynhyrchwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwartheg** | | | | | |
| Llo (pob categori yn cynnwys cig llo) hyd at 3 mis | | 40 | 90 | 8 | 78.90 |
| Buwch odro hyd at y llo cyntaf | O 3 mis ac o dan 13 mis | | | 35 | 0.00 |
| | O 13 mis hyd at y llo cyntaf | | | 61 | 0.00 |
| Buwch odro ar ôl magu llo cyntaf | Cynnyrch llaeth blynyddol dros 9,000 litr | | | 115 | 0.00 |
| | Cynnyrch llaeth blynyddol 6,000 – 9,000 litr | | | 101 | 0.00 |
| | Cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6,000 litr | | | 77 | 0.00 |
| Buchod neu fustycha hyd at 25 mis | O 3 mis ac o dan 13 mis | 40 | 275 | 33 | 994.52 |
| | O 13 mis ac o dan 25 mis | | | 50 | 0.00 |
| Buchod neu fustycha o 25 mis | Anifeiliaid benyw neu fustycha i'w lladd | | | 50 | 0.00 |
| | Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso 500 kg neu lai | | | 61 | 0.00 |
| | Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso dros 500 kg | 40 | 365 | 83 | 3320.00 |
| Teirw | Nid ar gyfer bridio, 3 mis a throsodd | | | 54 | 0.00 |
| | Bridio – o 3 mis ac o dan 25 mis | | | 50 | 0.00 |
| | Bridio – o 25 mis | 1 | 365 | 48 | 48.00 |
| **Cyfanswm Nitrogen Gwartheg** | | | | **kg/blwyddyn** | **4441** |
| **Defaid** | | | | | |
| O 6 mis hyd at 9 mis | | 270 | 90 | 2 | 133.15 |
| O 9 mis hyd at yr wyna cyntaf, yr hwrdda cyntaf neu'r lladd | | 120 | 244 | 1.4 | 112.31 |
| Ar ôl wyna neu hwrdda | Pwyso llai na 60 kg | 200 | 365 | 7.6 | 1520.00 |
| | Pwyso dros 60 kg | 208 | 365 | 12 | 2496.00 |
| **Cyfanswm Nitrogen Defaid** | | | | **kg/blwyddyn** | **4261** |

## Dofednod - 16,000 o ieir dodwy

- **15,500 – 365 diwrnod** (wedi ystyried marwolaethau dros y flwyddyn)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dofednod** | | | | | |
| Ieir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl | O dan 17 wythnos oed | | | 0.23 | 0.00 |
| | O 17 wythnos (mewn cewyll) | | | 0.41 | 0.00 |
| | O 17 wythnos (nid mewn cewyll) | 15500 | 365 | 0.55 | 8525.00 |
| Ieir a fegir ar gyfer cig | | | | 0.39 | 0.00 |
| Ieir a fegir ar gyfer bridio | O dan 25 wythnos oed | | | 0.31 | 0.00 |
| | O 25 wythnos oed | | | 0.74 | 0.00 |
| Tyrcwn | Male | | | 1.37 | 0.00 |
| | Female | | | 1.03 | 0.00 |
| Hwyaid | | | | 0.91 | 0.00 |
| Estrysod | | | | 1.4 | 0.00 |
| **Cyfanswm Nitrogen Dofednod** | | | | **kg/blwyddyn** | 8525 |
| | | | | | |
| **[2F] Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan *dda byw* ar y daliad** | | | | **kg/blwyddyn** | **17228** |

## Buches odro yn lloea ym mis Medi - 25% heffrod cyfnewid

- **100 o fuchod – 365 diwrnod**
- **100 o loeau (0 - 3 mis (Medi - Tachwedd)) - 90 diwrnod** (os gwerthir yn 2 fis oed, mae angen lleihau'r dyddiau)
- **25 o loeau (3 - 13 mis (Ionawr - Hydref)) - 300 diwrnod** (dim ond 25 llo yn cael eu cadw fel heffrod cyfnewid, gwerthu'r gweddill yn 3 mis oed)
- **25 o loeau (o 13 mis hyd at lloea cyntaf) – 365 diwrnod**

- **1 tarw – 365 diwrnod**

| Math o dda byw | | Nifer y stoc | Dyddiau ar y fferm | nitrogen a gynhyrchir gan bob uned o stoc (kg/blwyddyn) | Cyfanswm y Nitrogen a gynhyrchwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwartheg** | | | | | |
| Llo (pob categori yn cynnwys cig llo) hyd at 3 mis | | 100 | 90 | 8 | 197.26 |
| Buwch odro hyd at y llo cyntaf | O 3 mis ac o dan 13 mis | 25 | 275 | 35 | 659.25 |
| | O 13 mis hyd at y llo cyntaf | | | 61 | 0.00 |
| Buwch odro ar ôl magu llo cyntaf | Cynnyrch llaeth blynyddol dros 9,000 litr | | | 115 | 0.00 |
| | Cynnyrch llaeth blynyddol 6,000 – 9,000 litr | | | 101 | 0.00 |
| | Cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6,000 litr | 100 | 365 | 77 | 7700.00 |
| Buchod neu fustycha hyd at 25 mis | O 3 mis ac o dan 13 mis | | | 33 | 0.00 |
| | O 13 mis ac o dan 25 mis | | | 50 | 0.00 |
| Buchod neu fustycha o 25 mis | Anifeiliaid benyw neu fustycha i'w lladd | | | 50 | 0.00 |
| | Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso 500 kg neu lai | | | 61 | 0.00 |
| | Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso dros 500 kg | | | 83 | 0.00 |
| Teirw | Nid ar gyfer bridio, 3 mis a throsodd | | | 54 | 0.00 |
| | Bridio – o 3 mis ac o dan 25 mis | | | 50 | 0.00 |
| | Bridio – o 25 mis | 1 | 365 | 48 | 48.00 |
| **Cyfanswm Nitrogen Gwartheg** | | | | **kg/blwyddyn** | **8605** |

**1.3 Tail da byw wedi'i fewngludo:** Os ydych yn mewngludo unrhyw fath o dail da byw, i mewn i'ch daliad o ddaliad arall, cofiwch ei gynnwys fel un mewnbwn mewn llinell, ar gyfer pob math o dail. Dewiswch pa fath o dail yr ydych ei fewngludo o'r rhestr yn y blwch yng ngholofn B ac ychwanegwch y cyfanswm yng ngholofn C.

**1.4 Tail da byw a allgludir:** Os ydych yn allgludo unrhyw fath o dail da byw allan o'ch daliad i ddaliad arall, cofiwch ei gynnwys fel un mewnbwn mewn llinell, ar gyfer pob math o dail. Dewiswch pa fath o dail yr ydych yn ei allgludo o'r rhestr yn y blwch yng ngholofn B ac ychwanegwch y cyfanswm yng ngholofn C.

**Os nad ydych yn mewngludo neu allgludo tail o'ch daliad, yna gadewch y tabiau yma yn wag os gwelwch yn dda.**

**2.1 Slyri (ddim yn cynnwys moch):** Mae'r tab yma ar gyfer da byw sydd yn cynhyrchu slyri yn unig (D.S. Os yw da byw yn cynhyrchu tail buarth/sych yn unig, nid oes angen eu cynnwys yma).
**Colofn D:** mae angen cynnwys pob da byw sydd yn cynhyrchu slyri ar y fferm.
**Colofn F:** mae angen cynnwys y nifer o ddyddiau a gesglir y slyri h.y. nifer y dyddiau mae'r da byw yn cael eu cadw dan do.
**Colofn G:** mae angen cynnwys % y da byw sydd yn cynhyrchu slyri h.y. os yw da byw ifanc ar wellt yn ogystal â bod a mynediad i ierdydd (ardal slyri), yna ychwanegwch y % o ddyraniad.

**2.2 & 2.3 Dŵr ychwanegol:** Mae'r tab yma ar gyfer cyfrifo unrhyw ddŵr ychwanegol sydd yn mynd i mewn i'r storfa slyri. Os yw'r dŵr sydd ychydig yn fudr yn cael ei gasglu mewn tanc ar wahân, yna peidiwch â'i gynnwys yma.

**Arwynebedd ardal heb ei orchuddio:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw ierdydd agored neu lwybrau cerdded sydd gennych, y byddai'n casglu slyri i mewn i'ch storfa. Mae angen cynnwys eich storfa slyri hefyd os nad yw wedi ei orchuddio. Er mwyn gweithio allan yr arwynebedd mewn $m^2$, byddwch angen lluosi hyd yr iard/storfa slyri, wrth ei led.

**Glawiad arferol:** Cliciwch ar y ddolen map data glawiad, ac yna cliciwch ar leoliad eich fferm ar y map er mwyn cael ffigwr glawiad cyfartalog.

**Dŵr y golchion wrth gynhyrchu llaeth:** Os oes gennych olchion parlwr godro neu unrhyw olchion eraill yn mynd i mewn i'r storfa slyri, yna mae angen cwblhau'r adrannau canlynol.

**Nifer y buchod:** Angen cynnwys nifer y gwartheg godro.

**Cyfaint y dŵr golchi:** Rhowch gyfaint y dŵr a ddefnyddir i olchi fesul buwch.
Ffigyrau fel enghraifft fyddai: Pibell ddŵr a phwysedd dŵr isel = 20 litr/buwch/dydd. Pibell ddŵr a phwysedd dŵr uchel = 30 litr/buwch/dydd.

**Ffactor trosi'r cyfnod storio:** Mae'r ffigwr yma wedi ei gyfrifo ar eich cyfer. Gweler y sylwadau yn y bocs os ydych am ddiweddaru'r ffigwr.

**Dŵr budr ychwanegol sy'n llifo i storfeydd slyri:** Os oes gennych ddŵr budr ychwanegol yn rhedeg i'r storfa slyri, ychwanegwch o yma.

**2.5 Slyri moch:** Mae'r tab yma i'w lenwi ar gyfer moch sydd yn cynhyrchu slyri yn unig (D.S. Os yw'r da byw yn cynhyrchu tail buarth/sych yn unig, peidiwch â'i gynnwys yma).

**Math o slyri moch (heb ei wanhau)**
**Colofn D:** Cofiwch gynnwys pob mochyn sydd yn cynhyrchu slyri ar y fferm
**Colofn F:** Cofiwch gynnwys nifer y dyddiau y cesglir y slyri.
**Colofn G:** Cofiwch gynnwys y % o slyri a gynhyrchir gan y moch h.y. os yw'r moch ar wellt yn ogystal â mynediad i iard (ardal slyri), ychwanegwch % y dyraniad.

**Cyfrifo dŵr golchion:** Mae hwn ar gyfer unrhyw system gadw moch sydd yn golchi ierdydd neu gorlannau, gan gynhyrchu dŵr budr.

**Colofn D:** Ychwanegwch nifer yr anifeiliaid dan sylw.
**Colofn F:** Ychwanegwch nifer y dyddiau a gesglir y dŵr budr.

**Gwir ffigwr dŵr golchi (D32):** Cwblhewch hwn os oes gennych unrhyw ddŵr golchion yn mynd i'r storfa slyri.
**Dŵr glaw (D33):** Os oes gennych unrhyw ddŵr glaw yn mynd i mewn i'r storfa slyri, ychwanegwch yma.
**Dŵr ffo budr arall (D34):** Os oes gennych unrhyw ddŵr ffo budr arall yn mynd i mewn i'r storfa slyri, rhowch y cyfaint i mewn yma.

**2.6 Capasiti storio slyri:** Mae'r tab yma i gyfrifo os yw eich storfa bresennol yn ddigonol ar gyfer cyfaint y slyri a gynhyrchir ar y fferm.

**Capasiti hysbys y storfa:** Os yr ydych yn gwybod beth yw eich capasiti storio ar gyfer slyri o adroddiad isadeiledd neu unrhyw gyfrifiad arall, ychwanegwch hyn yn y bocs yma (E7). Os ydych yn gwybod eich capasiti storio ar gyfer slyri, nid yw'n ofynnol i chi lenwi gweddill y cwestiynau ar y tab hwn.

**Storfa sgwâr neu betryal:** Os oes gennych storfa sgwâr neu betrayal, ychwanegwch y mesuriadau yma er mwyn cyfrifo'r capasiti. Os oes gennych chi lagŵn ag ochrau pridd, defnyddiwch y 'Slurry Wizard' neu cysyllltwch â'r **Llinell Gymorth** ar **01974 847 000** er mwyn cyfrifo'r capasiti.

**Storfa gron sydd uwchlaw'r ddaear:** Os oes gennych storfa gron, ychwanegwch y radiws a'r uchder yma er mwyn cyfrifo'r capasiti.

**CAPASITI STORFA SLYRI:** Bydd hwn yn hysbysu os yw eich storfa slyri gyfredol ar y fferm yn ddigonol .

**2.7 Tail dofednod:** Mae'r tab yma yn cyfrifo cyfanswm cyfaint y tail a gynhyrchir gan ddofednod ar y fferm.
**Colofn D:** Ychwanegwch rif cyfartalog yr adar gyferbyn a'r categorïau perthnasol.
**Colofn E:** Ychwanegwch gyfanswm nifer y dyddiau y bydd yr adar ar y fferm o 1 Hydref hyd at 1 Ebrill.
**Colofn F:** Ychwanegwch y % o dail a gesglir. D.S. Os oes gennych ieir maes sy'n dodwy, mae angen lleihau'r % ar gyfer yr amser mae'r adar yn ei dreulio tu allan ac ni chesglir y tail hynny yn y sied.

**3.1 Gofynion N optimwm y cnwd:** Mae'r tab yma yn cyfrifo faint o gyflenwad nitrogen sydd ar gael y gellir ei wasgaru ar gaeau yn ddibynnol ar y math o gnwd. Dylid llenwi pob parsel neu grŵp o gaeau yr ydych yn cynllunio i wasgaru nitrogen arnynt, boed hynny drwy dail da byw organig neu drwy wrtaith wedi ei weithgynhyrchu.

**Colofn B & C:** Wedi eu cwblhau yn barod.
**Colofn D:** Arwynebedd o'r cae fydd yn derbyn nitrogen.
**Colofn E:** Dewiswch y math o gnwd o'r rhestr yn y blwch.
**Colofn F:** Dewiswch y cnwd o'r rhestr yn y blwch.
**Colofn G:** Dewiswch opsiwn o'r rhestr yn y blwch .
**Colofn H:** Dilynwch y ddolen ar gyfer RB209 tudalen 13 Tabl 3.6 ar gyfer statws CNP (Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd)
https://ahdb.org.uk/documents/RB209/RB209_Section3.pdf
**Colofn I:** Dewiswch o'r rhestr yn y blwch.
**Colofn J:** Os oes cnwd, ychwanegwch y mis y caiff y cnwd ei blannu
**Colofn K:** Os yn gnwd âr, ychwanegwch faint o gynnyrch a ddisgwylir.

**Colofn L:** Dilynwch y ddolen ar gyfer RB209 tudalennau 12 - 18 er mwyn cyfrifo'r gyfradd optimwm o nitrogen ar gyfer glaswellt. Ar gyfer tir âr, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda - https://projectblue.blob.core.windows.net/media/Default/Imported%20Publication%20Docs/RB209%202022/RB209_Section2_2022_220224_WEB.pdf.pdf
**Colofn M:** Dewiswch o'r rhestr yn y blwch.

**3.2 Cynllun ar gyfer y nitrogen sydd ar gael** o dail da byw

**Colofn B & C:** Wedi ei gwblhau yn barod.
**Colofn D:** Arwynebedd o'r cae fydd yn derbyn tail da byw/slyri, gan dynnu unrhyw ardaloedd sydd ger cyrsiau dŵr ayb.
**Colofn E:** Wedi ei gwblhau'n barod.
**Colofn F:** Dewis y math o dail da byw o'r rhestr yn y blwch..
**Colofn G:** Ychwanegwch unrhyw dail arall sydd ddim yn cael ei restru yng ngholofn F.
**Colofn H:** Ychwanegwch nifer y gwasgariadau o'r math o dail yr ydych yn bwriadu ei roi ar y cae.
**Colofn I:** Ychwanegwch ddyddiadau'r gwasgariadau yr ydych chi'n cynllunio ei wneud.
**Colofn J:** Cynhwyswch y t/ha a wasgerir – gweler y tabl trosi yn RB209 tudalen 35.
**Colofn K:** Wedi ei gwblhau'n barod.
**Colofn L:** Os ydych yn profi a chael dadansoddiad o dail y fferm, ychwanegwch y gyfran nitrogen yma.
**Colofn M:** Gweler y tablau yn nhab 5.1.

**3.3 Cynllun ar gyfer nitrogen wedi ei weithgynhyrchu:** Pwrpas y tab yma yw i nodi eich cynllun ar gyfer gwasgaru gwrtaith nitrogen wedi ei weithgynhyrchu. Mae'r mwyafrif o'r wybodaeth ar y tab yma yn cael ei gwblhau'n awtomatig o'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei fewnbynnu yn y tabiau cynharach. Ar gyfer y caeau yr ydych yn bwriadu gwasgaru gwrtaith wedi ei weithgynhyrchu arnynt, ychwanegwch y data canlynol:

**Colofn D:** Ychwanegwch arwynebedd o'r cae y byddwch yn gwasgaru gwrtaith arno. Tynnwch unrhyw ddarnau wrth orglawdd, taleri neu gyrsiau dŵr ayb.

**Colofn I:** Ychwanegwch y dyddiad(au) y bwriedir gwasgaru'r gwrtaith ar gyfer bob parsel o gaeau**.**

**Colofn J:** Ychwanegwch gyfanswm y gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd a gynllunnir i'w wasgaru, mewn kg/ha. Ni ddylai'r cyfanswm fod yn fwy na'r ffigwr optimwm o dabl 3.1

**3.4: Cofnod o'r gwir wasgariadau o wrtaith N:** Dylid cwblhau'r tab yma wrth i chi wasgaru tail a/neu wrtaith nitrogen ar eich tir.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government